**Sesiwn Gwrandawiad 4 - Sipsiwn a Theithwyr**

**Materion a chwestiynau pellach**

Ymateb y Cyngor i eitemau 4, 8, 11, 12, 17, 19, a 22 y gofynnwyd amdanynt gan yr Arolygwyr cyn y Sesiwn Gwrandawiad.

**Eitem 4:**Darparwch yr asesiad ecolegol cychwynnol ar gyfer Lawnt Pengam.

**Ymateb:**

Mae copi o'r Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (AEC) a baratowyd mewn cysylltiad â'r cais sydd ar ddod ar gyfer y safle wedi'i anfon at Arolygwyr.

**Eitem 8:** *Darparwch gopi o'r asesiad rhagarweiniol o halogiad ar gyfer Lawnt Pengam.*

**Ymateb:**

Roedd yr asesiad rhagarweiniol o halogiad yn astudiaeth bwrdd gwaith a gadarnhaodd nad oedd y safle yn hen safle tirlenwi ac mae asesiad manylach ar y gweill mewn cysylltiad â'r cais cynllunio sydd ar ddod i gadarnhau'r asesiad bwrdd gwaith hwn.

**Eitem 11:**Darparwch gynllun o'r ddinas gyda'r safleoedd a restrir yn y broses dewis safleoedd wedi'u plotio. A'r cynlluniau y cafodd pob safle ei asesu arnynt.

**Ymateb:**

Mae Cynllun o'r ddinas gyda'r safleoedd a restrir yn y broses dewis safleoedd a chynlluniau ar gyfer pob safle wedi'i anfon at yr Arolygwyr.

**Eitem 12:**Darparwch yr asesiad Cam 2 manwl gan gynnwys y farn arbenigol gan CNC, Ecolegydd ac Ecolegydd, Priffyrdd, Ystadau Strategol, Datblygu Economaidd, Addysg, Rheoli Gwastraff, Rheoli Llygredd, Swyddog Coed a Draenio’r Cyngor, y cyfeirir atynt ym mharagraff 4.2.

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y sylwadau gan CNC ac ardaloedd gwasanaeth eraill wedi'u hymgorffori yn yr asesiad a nodir yn Atodiad 1 o'r Asesiad Safle Asesu Sipsiwn a Theithwyr. Gallwn hefyd gadarnhau nad oes gennym bellach gopïau o'r sylwadau gwreiddiol gan yr ymgyngoreion sydd wedi’u rhestru.

**Eitem 17:**Darparwch dystiolaeth i gefnogi'r honiad bod y gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi dangos cefnogaeth i Lawnt Pengam.

**Ymateb:**

Mae crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar safle newydd arfaethedig yn Lawnt Pengam wedi cael ei anfon at yr Arolygwyr.

**Eitem 19:**Ble mae'r dystiolaeth i gefnogi'r honiad bod rhai safleoedd yn rhy gyfyng i ddarparu amodau byw diogel neu dderbyniol?

**Ymateb:**

Gall y Cyngor gadarnhau bod y cyfeiriad at safleoedd cyfyng yn ymwneud â maint a siâp y safleoedd a'r gallu i ddarparu ar gyfer isafswm meintiau lleiniau priodol ac wedi ystyried yr angen i ddiogelu amwynder preswyl meddianwyr ac eiddo cyfagos yn y dyfodol.

**Eitem 22:** Mae New Farm Yard, Heol Gwynllŵg, wedi'i ddiystyru oherwydd nad yw'r safle'n eiddo i'r Cyngor a gallai cyfanswm y gost beryglu ei gyflawniad. A gysylltwyd â'r perchennog? Darparwch yr asesiad dichonoldeb.

**Ymateb:**

Gall y Cyngor gadarnhau, ers i'r astudiaeth gael ei chynnal, bod y Cyngor wedi prynu New Farm Yard, Heol Gwynllŵg a bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 4 llain ar safle ychydig yn fwy, yn cynnwys yr eiddo cyfagos a gafodd wedyn ei ddymchwel, ac mae disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau cyn bo hir – gweler y manylion yma 23/00191/FUL | Ymestyn Safle Sipsiwn a Theithwyr Shirenewton i gynnwys darparu 4 llain ychwanegol, gyda mynediad i gerddwyr ar hyd Rhodfa Gwynllŵg | New Farm Yard, Heol Gwynllŵg, Tredelerch, Caerdydd CF3 2EE